Cymru sy'n Ystyriol o Drawma
Trauma-Informed Wales

Straen Trawmatig Cymru | Traumatic Stress Wales

**Gwerthusiad Hyfforddiant Ymarfer, Sgiliau a Strategaethau sy'n Ystyriol o Drawma (TIPSS)**
Gwybodaeth i Ddarpar Gyfranogwyr

**Diolch i chi am fynegi diddordeb mewn cyfranogiad sefydliadol yng Ngwerthuso Hyfforddiant TIPSS**

**<u>Gwerthusiad TIPSS</u>**

Mae Ymarfer, Sgiliau a Strategaethau sy'n Ystyriol o Drawma (TIPSS) yn rhaglen hyfforddi genedlaethol a ddatblygwyd gan Straen Trawmatig Cymru, ar lefelau medrus o ran trawma a manwl o ran trawma Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma. Mae amcanion allweddol y gwerthusiad hwn yn cynnwys effaith cymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfranogwyr a'u sefydliadau, cywirdeb ac ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant, a rhwystrau a hwyluswyr i'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion. Bydd effaith hirdymor yr hyfforddiant yn cael ei hasesu ar lefel unigol a sefydliadol.

**<u>Pam cofrestru i gymryd rhan?</u>**

Mae hyfforddiant TIPSS wedi cael ei gyflwyno mewn amrywiaeth o sefydliadau ledled Cymru sydd wedi treialu'r dull i gefnogi'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc (PPI) a'r rhai sy'n gweithio gydag oedolion. Mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu canlyniadau cadarnhaol posibl, gan gynnwys mwy o hyder ymhlith y rhai dan hyfforddiant. Drwy gymryd rhan yn y gwerthusiad, byddwch, wrth gwrs, yn cael y budd o dderbyn yr hyfforddiant hwn eleni a bod yn rhan o'r gymuned ymarfer, gan gefnogi uchelgais eich sefydliad i ddod yn Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE). Yn ogystal, bydd cymryd rhan yn y gwerthusiad hwn yn tystio i'ch ymrwymiad i'r dull hwn, datblygiad eich strategaeth hyfforddi, a chefnogi monitro a gwerthuso. Bydd yr adroddiad terfynol yn dangos tystiolaeth o effaith i gefnogi eich dull o ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn eich sefydliad, a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i'ch gweithlu a'r bobl rydych chi'n eu cefnogi. Ac mae'n gyfle i helpu i lunio'r cynnig cenedlaethol i ddiwallu anghenion pobl a sefydliadau ledled Cymru sydd wedi profi adfyd a thrawma. Mae rhagor o wybodaeth ac adroddiadau ar y cynlluniau peilot ar gael yn https://traumaframeworkcymru.com/cy/

**<u>Beth allwn ni gofrestru ar ei gyfer?</u>**

Gall eich sefydliad gofrestru ar gyfer rhaglen TIPSS ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Oedolion, neu'r ddau, a'r hyfforddiant hunangyfeiriedig ar-lein (oedolion). Gall sefydliadau ddewis mabwysiadu dull hybrid neu nodi pa fath o hyfforddiant sy'n diwallu eu hanghenion orau.

**<u>Pwy fydd yn cynnal y Gwerthusiad?</u>**

Mae Cymru sy'n Ystyriol o Drawma wedi comisiynu Prifysgol Bangor i gynnal y gwerthusiad, dan arweiniad Dr Kat Ford a'r Athro Karen Hughes.

**<u>Beth yw'r amserlen?</u>**

Rhaid i gyfranogwyr ar gyfer y gwerthusiad hwn allu cyflwyno a chael mynediad at hyfforddiant wyneb yn wyneb (i'r rhai sy'n gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc neu Oedolion) neu ddefnyddio'r adnoddau ar-lein hunan-arweiniol rhwng Mehefin a Rhagfyr 2026. Disgwylir i'r broses werthuso redeg o Fai 2026 i Awst 2027.

**Beth fydd yn digwydd?**

Gall cyfranogwyr (hyfforddwyr a'r rhai sy'n derbyn hyfforddiant o fewn y sefydliad) ddisgwyl cael eu gofyn i lenwi holiaduron cyn ac ar ôl cyflwyno'r hyfforddiant a 6 mis yn ddiweddarach, darparu data arferol a chael eu harsylwi yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant (pan fo wyneb yn wyneb am fyddlondeb). Efallai y bydd y tîm gwerthuso'n arsylwi sesiynau i weld a yw'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno fel y cynlluniwyd, yn hytrach nag i asesu'r hyfforddwr neu'r cyfranogwyr. Efallai y bydd angen cyfranogiad pellach (gyda chydsyniad ar wahân) ar ôl 6-12 mis pan fydd sampl o gyfranogwyr yn cael eu gwahodd i fynd i gyfweliadau lled-strwythuredig (wyneb yn wyneb neu ar-lein) i archwilio profiadau hyfforddiant; profiadau o'r model hyfforddi'r hyfforddwr (lle bo'n berthnasol); cymhwyso dysgu; sut mae'r hyfforddiant yn dylanwadu ar agweddau, gwybodaeth, sgiliau, hyder ac ymddygiad, gwneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau; yn ogystal â rhwystrau a hwyluswyr.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Bydd eich manylion yn cael eu darparu i'r Tîm Gwerthuso, cysylltir â chi'n uniongyrchol i sefydlu'r broses gyfranogi. Bydd prif gyswllt y sefydliad yn gweithio gyda Thîm Cymru sy'n Ystyriol o Drawma a Thîm Gwerthuso Prifysgol Bangor i sicrhau bod pob cyfranogwr yn cael gwybod yn llawn am y broses a gallant roi cydsyniad ar sail gwybodaeth i gymryd rhan ym mhob cam.

Gan weithio gyda chi, bydd y tîm gwerthuso yn sicrhau y bydd pob cyfranogwr gwerthuso posibl yn cael gwybodaeth fanwl ynghylch pam mae'r gwerthusiad yn cael ei gynnal, y manteision a'r risgiau posibl o gymryd rhan, yr hawl i dynnu'n ôl, cyfrinachedd a storio data. Mae taflenni gwybodaeth wedi'u teilwra ar gyfer y gwahanol ddulliau gwerthuso fel y gall cyfranogwyr wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i gymryd rhan ym mhob elfen o'r gwerthusiad. Bydd y tîm Gwerthuso yn annog cyfranogwyr i ofyn cwestiynau, a bydd tîm y rhaglen hefyd ar gael i chi drwy gydol y broses.

Bydd cymryd rhan yn Hyfforddiant TIPSS fel sefydliad yn parhau p'un a yw cyfranogwyr yn cydsynio i'r rhan werthuso ai peidio; rydym yn disgwyl yn bendant y bydd pobl nad ydynt am gymryd rhan o fewn sefydliadau. Bydd arweinydd Straen Trawmatig Cymru yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i sefydliadau sy'n cymryd rhan drwy gyswllt unigol a'r gymuned ymarfer.

**Cwestiynau Pellach?**

Cysylltwch â Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: traumaframework@wales.nhs.uk
Cysylltwch â Lilith Gough: lilith.gough@wales.nhs.uk

**Trauma-informed Practice, Skills and Strategies (TIPSS) Training Evaluation**

Information for Prospective Participants

**Thank you for expressing an interest in organisational participation in the Evaluation of the TIPSS Training**

**The Evaluation of TIPSS**

Trauma-informed Practice, Skills and Strategies (TIPSS) is a national training programme developed by Traumatic Stress Wales (TSW), at the trauma-skilled and trauma- enhanced levels of the Trauma-informed Wales Framework. The key objectives of this evaluation include impact of training participation on participants and their organisations, fidelity and quality of training delivery, and barriers and facilitators to scalability. The long-term impact of the training will be assessed at both the individual and organisational levels.

**Why sign up to participate?**

The TIPSS training has been delivered in a range of organisations across Wales who have piloted the approach to support those working with working with children and young people (CYP) and those working with adults. Initial findings suggest potentially positive outcomes, including increased trainee confidence. By participating in the evaluation, you will of course get the benefit of receiving this training this year and being part of the community of practice, supporting of your organisational ambition to become Trauma and Adverse Childhood Experiences (TrACE)-Informed. In addition, participation in this evaluation will evidence your commitment to this approach, the development of your training strategy, and support monitoring and evaluation. The final report will evidence impact to support your approach for trauma-informed practice in your organisation, and the difference it makes to your workforce and the people you support. And is an opportunity to help shape the national offer to meet the needs of people and organization across Wales who have experienced adversity and trauma. Further information and reports on the pilots can be found at www.traumaframeworkcymru.com

**What can we sign up to?**

Your organisation can sign up to the TIPSS programme for Children and Young People, Adults, or both, and the online self-directed training (adults). Organisations may choose to take a hybrid approach or identify which form of training meets their needs best.

**Who will conduct the Evaluation?**

Trauma-informed Wales has commissioned Bangor University to conduct the evaluation, led by Dr Kat Ford and Professor Karen Hughes.

Cymru sy'n Ystyriol o Drawma
Trauma-Informed Wales

Straen Trawmatig Cymru | Traumatic Stress Wales

**What are the timescales?**

Participants for this evaluation must be able to deliver and access training in person (for those working with Children and Young People or Adults) or using the self-led online resources between June and December 2026. The evaluation process is expected to run from May 2026 to August 2027.

**What is involved?**

Training participants can expect to be asked to complete questionnaires before and after training delivery and 6 months later, some training will be observed for fidelity. The evaluation team may observe sessions to see if the training is being delivered as planned, rather than to assess the trainer or participants. Further participation may be required (with separate consent) at 6-12 months when a sample of participants will be invited to attend semi-structured interviews (in person or online) to explore experiences of training; experiences of the train-the-trainer model (where applicable); application of learning; how the training influences attitudes, knowledge, skills, confidence and behaviour, decision-making and service development; as well as barriers and facilitators.

**What happens next?**

Your details will be provided to the Evaluation Team and you will be contacted directly to establish the participation process. The lead contact for the organisation will work with the Trauma-informed Wales Team and the Bangor University Evaluation Team to ensure all participants are fully informed about the process and can give informed consent to participate at all stages.

Working with you, the evaluation team will ensure that all potential evaluation participants will be provided with detailed information about why the evaluation is being carried out, the possible benefits and risks of taking part, the right to withdraw, confidentiality and data storage. Tailored information sheets have been designed for the different evaluation methods so that participants can make an informed decision to participate in each strand of the evaluation. The Evaluation Team will encourage participants to ask questions, and the programme team will also be available to you throughout the process

Participating in the TIPSS Training as an organisation will continue whether participants consent or not to the evaluation part; we fully expect there to be people who do not want to take part within organisations. The TSW lead will provide support and guidance to participating organisations through individual contact and the community of practice.

**Further Questions?**

Contact Trauma-informed Wales: traumaframework@wales.nhs.uk Contact
Lilith Gough: lilith.gough@wales.nhs.uk